SWYDDO
GOL

Nodiadau cyfarfod Panel Craffu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys Heddlu Trafnidiaeth Prydeinig: 29ain

Gorffennaf 2020 Cyflwyniad

Rhoddwyd y diweddariadau canlynol yn y cyfarfod:

1. **Gwybodaeth am bolisi OOCD**

   Mae gan BTP Bolisi y Tu Allan i'r Llys wedi'i ffurfioli sy'n nodi canllawiau clir a chynhwysfawr ar weithredu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys. Mae'r polisi'n darparu dau Lawlyfr o Ganllawiau sy'n berthnasol i ddatrysiadau oedolion ac ieuenctid yn y drefn honno.Mae'r ddau yn dogfennu'r holl wybodaeth a gofynion gweithdrefnol ac mae'n berthnasol i'r holl staff BTP sy'n ymwneud â chyhoeddi, gorfodi a gweinyddu Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

2. **Archwiliad OoCD**

   Ers symud i'r fframwaith Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys i oedolion dwy haen ar 18fed Tachwedd 2019, cynhaliwyd dau archwiliad ym mis Chwefror a mis Mehefin eleni.Diben yr adolygiadau oedd nodi a oedd y canlyniad datrys wedi'i weithredu yn unol â'r canllawiau perthnasol.Roedd y gyfradd gydymffurfio gyffredinol yn **95%** yn y ddau adolygiad sy'n dangos dealltwriaeth dda o ofynion Datrysiadau y Tu Allan i'r Llys.

3. **Polisi Interim y Tu Allan i'r Llys**

   Mae'r Polisi Interim Datrysiadau y tu allan i'r Llys yn darparu fframwaith ar gyfer sut y dylid ymdrin â datrysiadau yn y Pandemig Coronafeirws presennol, er mwyn lleihau'r cyswllt rhwng pobl i leihau risg ac annog pobl i ddefnyddio OoCD lle y bo'n briodol er mwyn atal ôl-groniad o achosion oherwydd cyfyngiadau llys.

4. **OoCD Newidiadau deddfwriaethol a Rheoliadau Coronafeirws**

   Nid oes unrhyw newidiadau deddfwriaethol OoCD perthnasol ar gyfer y

   cyfnod amser perthnasol Rheoliadau 'Diogelu Iechyd'

   Mae'r Rheoliadau hyn yn cyflwyno cyfyngiadau yn y pandemig presennol.Mae mynd yn groes i'r cyfyngiadau hyn yn drosedd, y gellir cyflwyno Hysbysiad Cosb Benodedig ar ei gyfer.

   Rheoliad Caerlŷr

   Mae Caerlŷr yn parhau mewn cyfnod clo gyda chyfyngiadau lle na chaniateir i bobl aros dros nos mewn preswylfa nad yw'n rhan o'u swigen, ac eithrio rhai eithriadau,
   e.e. sy'n ofynnol ar gyfer mynychu angladdau, cyflawni

   rhwymedigaethau cyfreithiol. Gorchuddion Wyneb

   Yn ei gwneud yn ofynnol i berson wisgo mwgwd wyneb wrth fyrddio neu fod ar fwrdd cludiant cyhoeddus a fyddai, ymhlith pethau eraill, yn cynnwys y rheilffordd. Gall person perthnasol (cwnstabl, aelod PCSO o TOC) wrthod i berson fynd ar drên neu ofyn iddynt ei adael ond dim ond cwnstabl a all ddefnyddio grym i dynnu person oddi ar y trên neu gyhoeddi FPN.

5. Diweddariadau cyfreithiol

Cyfyngiadau Teithio Rhyngwladol

O dan y rheolau hyn, rhaid i berson hunanynysu am 14 diwrnod os yw'n cyrraedd o wledydd penodol i Gymru, Lloegr neu'r Alban, neu gwblhau eu gwybodaeth deithiwr wrth gyrraedd y gwledydd hyn. Os nad yw'r naill neu'r llall o'r rhain wedi'u cwblhau, neu os yw person yn darparu gwybodaeth gamarweiniol, yna mae gan yr heddlu'r pŵer i gyhoeddi FPN.

E-Sgwteri

Sgwteri trydan yw'r rhain y gallech eu gweld yn cael eu defnyddio ar ffyrdd cyhoeddus.Maent mewn gwirionedd yn anghyfreithlon i'w defnyddio y tu allan i le preifat a chan eu bod yn cael eu hystyried yn gerbydau a yrrir yn fecanyddol, gellir ymdrin â hwy drwy rannu troseddau fel 'gyrru heb yswiriant' neu 'drwydded' neu is-ddeddfau cyffredinol. Mae deddfwriaeth newydd wedi'i chyflwyno a fydd yn golygu bod treialon sgwteri trydan wedi'u llogi yn gyfreithlon yng Nghymru, Lloegr a'r Alban.

6. Trosolwg o'r achosion a ystyriwyd gan y panel:

Roedd yr achosion a drafodwyd yn y panel yn cynnwys y troseddau canlynol; **Difrod troseddol (2), ABH (1), Taflu cerrig (1), Is-ddeddf rheilffordd ymddygiad annerbyniol x 2 (1), Is-ddeddf rheilffordd 9 (1), Meddiant gyda'r bwriad o gyflenwi dosbarth B (1), Meddu ar ddosbarth B - canabis (3), Tresmasu / Meddu dosbarth B - canabis x 2 (1), Cyfyngu ar symud – coronafeirws (6 – FPN), Cyfathrebu maleisus (1), Dwyn – dwyn o siopau (1), Osgoi Talu am Docyn (1), Meddw ac afreolus (1)**

O'r 21 achos a adolygwyd, dosbarthodd y panel y datrysiadau fel a ganlyn:

Priodol ac yn gyson â chanllawiau / polisi	12
Priodol ond gydag arsylwadau	3
Amhriodol ac anghyson â chanllawiau / polisi	4
Panel yn methu â chytuno ar briodoldeb y penderfyniad	1
Dim digon o wybodaeth	1

Camau gweithredu dilynol:

Bydd pob un o'r achosion unigol a drafodwyd gan y panel yn cael eu bwydo'n ôl i'r rhai sy'n gwneud penderfyniadau gyda chanllawiau priodol i'r ddau swyddog yn yr achos a'u goruchwylwyr yn ôl yr angen.

Sylwadau/camau gweithredu cyffredinol:

- CAM GWEITHREDU - Darparu data ar faint o ddatrysiadau y tu allan i'r llys a gyhoeddir gan BTP o dan y fframwaith newydd, o'i gymharu â'r niferoedd ar gyfer yr un cyfnod y llynedd (a ddygwyd ymlaen o'r panel diwethaf)
- Cynnwys blwyddyn geni troseddwyr mewn bwndeli ffeiliau achos wedi'u golygu yn y dyfodol.

Dyddiad y cyfarfod nesaf: 10:00 Dydd Mercher 14eg Hydref, Ar-lein drwy Microsoft Teams a hefyd yn bersonol yn FHQ BTP, Camden Road, Llundain (yn amodol ar Reoliadau Iechyd ar amser).